Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau

# Cymryd Rhan

Cyngor Celfyddydau Cymru | Tachwedd 2018

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

# Cymryd Rhan

## Pwrpas

Darparu rhagor o ddulliau i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol o safon uchel.

## Beth rydyn ni am ei gyflawni

Rydyn ni am i'r amrywiaeth ehangaf bosibl o bobl gymryd rhan yn y celfyddydau a'u mwynhau. Mae hynny am ein bod ni'n gwybod bod ymgysylltu'r gymuned mewn ffordd wirioneddol ac ystyrlon yn gallu bod yn drawsnewidiol. Ond rydyn ni'n gwybod hefyd fod yna rwystrau parhaus – rhai cymdeithasol, economaidd, daearyddol ac ariannol – sy'n gallu atal pobl rhag cymryd rhan.

Rydyn ni am i sefydliadau'r celfyddydau fod yn feiddgar, yn arloesol ac yn llawn dychymyg o ran y ffordd y maent yn cyflawni rhaglenni cyfranogol ym maes y celfyddydau, sy'n estyn allan ac yn ymrwymo pobl mewn ffordd ystyrlon. Rydyn ni am gynorthwyo amrywiaeth o weithgareddau, ond mae diddordeb arbennig gennym mewn prosiectau ansawdd uchel sy'n estyn allan at bobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig cydnabyddedig.

Rydyn ni am ganolbwyntio ar brosiectau ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd, am ein bod ni'n gwybod bod ymgysylltu â'r celfyddydau mewn ffordd ymarferol yn gallu trawsnewid eu dulliau o ddysgu ac archwilio'r byd o'u cwmpas, yn ogystal â'u cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau bywyd a chodi eu disgwyliadau.

Rydyn ni am gynorthwyo prosiectau sy'n comisiynu neu'n creu ac yn cyflwyno rhaglenni penigamp ym maes y celfyddydau cyfranogol, ac sy'n berthnasol, yn rhoi boddhad neu'n ysbrydoledig. Byddwn ni'n disgwyl i'r gweithgaredd arfaethedig gynnig cyfleoedd go iawn i gymryd rhan, sy'n helpu i feithrin creadigrwydd a magu hyder.

Rydyn ni'n arbennig o awyddus i gynorthwyo rhai  mathau o brosiectau. Mae hyn yn golygu, pan fydd angen i ni ddewis rhwng prosiectau cymwys o ansawdd debyg, y byddwn yn blaenoriaethu'r canlynol:

- Prosiectau sy'n targedu ac yn estyn allan at bobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig cydnabyddedig

- Prosiectau sy'n targedu ac yn estyn allan at bobl â "nodweddion gwarchodedig". Ymadrodd a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw "nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, rhyw, cyfeiriadaeth rywiol, crefydd neu gredo. Gwnaeth y Ddeddf hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn pobl ar y seiliau hyn

## Prosiectau ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Prosiectau sy'n comisiynu unigolion creadigol proffesiynol i arwain a chyflawni gweithgareddau cyfranogol ym maes y celfyddydau ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Prosiectau sy'n helpu gyda chostau sefydlu grwpiau neu rwydweithiau celfyddydol newydd a chynaliadwy ar gyfer pobl ifanc
- Prosiectau sy'n cynorthwyo grwpiau celfyddydol sefydledig ar gyfer pobl ifanc i gomisiynu unigolion creadigol proffesiynol i arwain prosiectau cyfranogol a'u cyflawni

## Prosiectau ar gyfer y sector diwylliannol gwirfoddol

- Prosiectau sy'n datblygu cyfranogaeth trwy gomisiynu unigolion creadigol proffesiynol (fel coreograffwyr, cyfarwyddwyr, cyfarwyddwyr cerdd a dylunwyr setiau), i weithio gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i wella ansawdd y gweithgareddau celfyddydol y maent yn eu cyflawni (dim ond ar lefel grantiau bach y gellir cyflwyno ceisiadau yn hyn o beth)
- Prosiectau sy'n datblygu cyfranogaeth trwy gryfhau cynhwysedd a chynaliadwyedd y sector diwylliannol gwirfoddol ar lefel sirol, rhanbarthol neu genedlaethol

## Prosiectau celfyddydol ar gyfer lleoliadau iechyd a lles

- Prosiectau sy'n hyrwyddo lles pob grŵp oedran trwy hwyluso cyfranogaeth yn y celfyddydau (a allai gynnwys cyflwyno gwaith gorffenedig i gynulleidfaoedd)
- Prosiectau sy'n hyrwyddo ac yn cryfhau'r gwaith mewn partneriaeth rhwng sector y celfyddydau a sefydliadau perthnasol eraill yng Nghymru (e.e. y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a'r Trydydd Sector)
- Prosiectau sy'n cynyddu'r cyfleoedd celfyddydol ar gyfer grwpiau sydd mewn perygl o les meddyliol gwael, ac yn enwedig ymysg pobl hŷn a phobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig

## Prosiectau na fyddwn yn eu cynorthwyo

Ni fyddwn yn cynorthwyo prosiectau nad ydynt yn dangos yn foddhaol sut rydych wedi cynnwys eich cyfranogwyr arfaethedig yn eich gwaith cynllunio.

## Beth fydd ei hangen gennych chi

Rydyn ni'n disgwyl i bob prosiect ddangos ymrwymiad llawn y bobl rydych chi'n bwriadu iddynt gymryd rhan yn eich gweithgaredd celfyddydol. Bydd darparu tystiolaeth fod y bobl rydych chi'n ceisio estyn allan atynt wedi cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio'r prosiect o'r cychwyn cyntaf yn allweddol yn hyn o beth. Yn benodol, byddwn ni'n disgwyl gweld prosiectau yn cael eu harwain gan y plant a'r bobl ifanc y maent wedi eu bwriadu ar eu cyfer.

Rhaid i chi allu dangos bod eich prosiect wedi sefydlu cynlluniau priodol ar gyfer ymgysylltu a chynnwys pobl, sy'n dweud wrthym sut rydych chi'n meddwl y gallwch chwalu'r rhwystrau sy'n gallu allgau grwpiau a chymunedau yn llwyddiannus.

Mae rhagor o wybodaeth yn ein Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau Cymryd Rhan, a bydd y rhain yn eich helpu wrth lenwi eich ffurflen gais.

## Pwy gaiff wneud cais

Byddwn ni'n croesawu ceisiadau gan sefydliadau'r celfyddydau a grwpiau celfyddydau ieuenctid.

Cewch wirio bod eich sefydliad yn gymwys i wneud cais trwy ddarllen ein dogfen Cychwyn Arni.

## Nodyn am Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol

Ym mis Tachwedd 2015 cyhoeddasom i 131 o ysgolion ledled Cymru gael eu dewis i fod yn rhan o Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, un o'r elfennau allweddol o Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau - cynllun gweithredu i Gymru. Nod y cynllun yw hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio gyda rhaglenni dysgu creadigol sy'n arloesol ac wedi'u teilwra sydd â'r nod o wella ansawdd addysgu a dysgu.

Daw arian Ysgolion Creadigol Arweiniol o gyllideb yr £20 miliwn a ddyrannwyd i gefnogi gweithredu Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – cynllun gweithredu i Gymru 2015-20. Dyrannwyd cyfanswm o £10 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru i baru'r £10 miliwn o arian y Loteri oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru

Nodwch y bydd holl weithgaredd ysgolion yn awr yn cael eu cefnogi drwy'r tair rhaglen o weithgarwch o fewn Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau - Ysgolion Creadigol Arweiniol, Rhwydweithiau'r Celfyddydau ac Addysg, Profi'r Celfyddydau.

Os hoffech ragor o wybodaeth am Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau - cynllun gweithredu i Gymru, cliciwch yma.

## Y Cyllid sydd ar gael

Cewch gyflwyno ceisiadau ar y lefelau canlynol:

- Grantiau bach rhwng £250 a £5,000
- Grantiau mawr rhwng £5,001 a £30,000

## Cyllid Partneriaeth

Os hybu neu gyflawni canlyniadau iechyd, addysg, cymdeithasol neu feysydd eraill nad ydynt yn gelfyddydol yw prif nod y prosiect, gallwch wneud cais am hyd at **50%** o gyfanswm costau cymwys eich prosiect.

Gall unrhyw sefydliad arall gyflwyno cais am hyd at **75%** o gyfanswm costau cymwys eu prosiect.

## Pryd cewch wneud cais

### Grantiau Bach

Nid oes dyddiadau cau ar gyfer grantiau bach, ond bydd angen i chi ganiatáu o leiaf **chwech wythnos gwaith** rhwng dyddiad cyflwyno'r cais a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect. **Os ydych chi'n cyflwyno'ch cais cyntaf i ni, yna rhaid i chi wneud cais ar y lefel hon.**

**Bydd ein rhaglen Grantiau Bach yn cau dros-dro tra ein bod yn adolygu sut yr ydym yn dosbarthu arian Loteri. Y dyddiad olaf byddwn yn derbyn ceisiadau Grantiau Bach fydd Dydd Mercher, 10fed o Orffennaf 2019 am 5pm. Caiff benderfyniadau eu cyfathrebu erbyn Dydd Mercher 31ain o Orffennaf 2019.**

### Grantiau Mawr

Dyma'r dyddiadau cau nesaf ar gyfer ceisiadau am grantiau mawr:

- 5pm Dydd Mercher 23ain Ionawr 2019
- 5pm Dydd Mercher 8fed Mai 2019

Bydd angen i chi ganiatáu o leiaf naw wythnos gwaith rhwng y dyddiad cau a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect.

## Pa mor aml y cewch wneud cais

Rydyn ni am sicrhau bod ein cyllid ar gael mor eang â phosibl, felly mae yna gyfyngiad ar sawl gwaith y gallwch gael cyllid trwy Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau. Gall Sefydliadau ddal un grant o'r cynllun hwn mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis.

**Rydyn ni'n defnyddio dyddiad dechrau eich prosiect i gyfrif y cyfnod o ddeuddeg mis.** Yr unig bryd y byddwn yn llacio'r rheol yma yw os ydych yn ceisio am arian ar gyfer gwaith datblygu, lle ystyriwn **un** grant ychwanegol y flwyddyn ar gyfer y pedwar maes canlynol:

- Datblygu Cynulleidfaoedd
- Datblygu Busnes a Sefydliadol
- Ymchwil a Datblygu
- Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol

Er enghraifft, gall eich sefydliad dderbyn grant o'r meysydd Cynhyrchu ac Ymchwil a Datblygu mewn un flwyddyn, ond ddim am ddau brosiect Ymchwil a Datblygu.

Nid yw'r ffaith y cewch gyflwyno ail gais mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis yn gwarantu llwyddiant y cais.

Rydyn ni'n defnyddio dyddiad dechrau eich prosiect i gyfrif y cyfnod o ddeuddeg mis. Er enghraifft, os cawsoch gyllid ar gyfer prosiect a gychwynnodd ar 1 Medi 2017, a'ch bod am gyflwyno cais arall, yna rhaid iddo fod am weithgaredd a fydd yn dechrau deuddeg mis yn ddiweddarach, hynny yw, ar 1 Medi 2018 neu'n ddiweddarach. Mae'n bwysig cofio y cewch gyflwyno'r cais cyn diwedd y cyfnod o ddeuddeg mis, ond ni allwch gynllunio bod eich gweithgaredd yn cychwyn nes bod blwyddyn wedi mynd heibio.

Cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth os ydyn ni wedi rhoi grant i chi o'r blaen a'ch bod chi'n ansicr a ydych chi'n gymwys i wneud cais eto nawr.

## Sut i wneud cais

Rhaid ichi drafod eich prosiect gyda ni cyn inni anfon ffurflen gais atoch.

Os oes gennych brosiect y credwch y gallai fod yn gymwys dan y maes ariannu hwn, e-bostiwch eich syniadau prosiect i: datblygu@celf.cymru

Cofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- eich enw
- teitl y prosiect
- disgrifiad o'ch prosiect
- faint o arian sydd arnoch ei angen?
- lleoliad y prosiect

Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio ein system ymgeisio ar-lein.

Os na allwch gyflwyno'ch cais ar-lein, er enghraifft, os ydych chi'n anabl neu os nad oes cyfrifiadur ar gael i chi, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth. Byddwn ni'n gweithio gyda chi i ddod o hyd i ddull eraill o wneud cais. Gallwn eich cynorthwyo hefyd os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf.

## Oes angen rhagor o gyngor arnoch?

Mae gennym Daflenni Gwybodaeth a dogfennau canllaw i'ch helpu chi gyda gwahanol agweddau ar y broses o ymgeisio, neu i ddarparu cyngor ar faterion penodol. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan. Efallai y bydd y canlynol o ddefnydd wrth i chi baratoi'ch cais ar gyfer y maes gwaith Cymryd Rhan:

- Y Nodiadau Cymorth ar gyfer Cymryd Rhan
- Y Daflen Wybodaeth ar Iechyd a Lles
- Cyngor Celfyddydau Cymru Arweiniad Cydraddoldeb

Os oes gennych ragor o gwestiynau am y cais, ffoniwch ein Tîm Grantiau a Gwybodaeth ar 0845 8734 900 neu e-bostiwch: grantiau@celf.cymru